

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Tiwtorial

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi er mwyn eu galluogi i **gyflawni eu potensial** wrth ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r **sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus** drwy gydol eu bywydau.

Diben y polisi hwn yw cydnabod, er bod y Coleg yn helpu dysgwyr i ennill cymwysterau, ein bod hefyd yn ceisio codi eu dyheadau a'u hunan-barch drwy ddatblygu cyflogadwyedd, hunanymwybyddiaeth a sgiliau bywyd - **rydym yn creu pobl fedrus a chyflogadwy**. Mae cymorth tiwtorial yn elfen hanfodol o hyn ac mae gan bob dysgwr hawl i raglen o ddatblygiad personol ac academiaidd.

Beth yw Tiwtorial?

Rhaglen drefnedig yw hon sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod dysgwyr llawn amser yn cael digon o gymorth ac yn cael eu herio i'w galluogi i lwyddo ar eu rhaglen astudio. Mae'n rhoi rhaglen ddysgu personol i bob dysgwr, yn llywio ac yn datblygu sgiliau ehangach dysgwyr ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi yn ei raglen astudio.

Mae'r rhaglen diwtorial yn cwmpasu ystod eang o bynciau hanfodol sydd wedi'u hanelu at ddatblygiad sgiliau dysgwyr, llesiant actif a datblygiad/twff personol. Fe'i darperir drwy gymysgedd o sesiynau wedi'u hamserlennu a chynnwys ar-lein, ac mae'n rhan hanfodol o raglen ddysgu dysgwr.

Datganiadau Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp sy'n defnyddio Tiwtorial, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Yr holl staff sydd â rôl tiwtor o fewn y coleg.

Bydd y Coleg yn sicrhau bob gan bob dysgwr llawn amser:

- **Diwtor cwrs/tiwtor personol/Hyfforddwr Cynnydd penodol** a fydd yn gyfrifol am gefnogi cynnydd a llesiant personol y dysgwr, gan ei annog a'i helpu i gymryd rhan ym mywyd y Coleg.
- **Awr yr wythnos** i ymgymryd â gwaith Tiwtor.
- Cyfle i drafod **ei gynnydd a'i anghenion cymorth** gyda'i diwtor yn rheolaidd.
- **Cytundeb dysgu unigol a thargedau cynnydd** a fydd yn cael eu cynnal a'u diweddarau'n rheolaidd gan y tiwtor cwrs/tiwtor personol mewn trafodaeth â'r dysgwr ac yn cael eu cofnodi ar *On Track*.
- Gallu defnyddio **rhaglen ddatblygu personol ac academiaidd** a fydd yn cynnwys elfen a addysgir ac elfen cynnydd academiaidd/cymorth bugeiliol, a rhaglen astudio annibynnol ar-lein.

Bydd y Coleg yn:

- Adolygu'r rhaglen Diwtorial yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben, yn bodloni gofynion ein dysgwyr, yn ogystal ag unrhyw ofynion cwricwlwm, cymorth neu ofynion statudol ehangach, e.e. y rheiny sy'n ofynnol o fewn y Rhaglen Maes Dysgu neu gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r elfen Tiwtorial.
- Sicrhau bod bob tiwtor yn cael ei gefnogi gan y Coleg gyda rhaglen **datblygiad proffesiynol parhaus** sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen diwtorial.
- Sicrhau bod bob dysgwr yn ymwybodol o'r rhaglen Diwtorial.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau digonol mewn lle i gynnal y dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol.

Mae'r uwch dîm Ansawdd yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu:	09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	09/24

- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod y rhaglen Diwtorial yn gyfredol ac yn bodloni'r holl ganllawiau gofynnol
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer h.y. adolygu'r rhaglen.

Mae'r holl Staff Addysgu, Hyfforddwyr Cynnydd a Staff Cymorth yn gyfrifol am:

- Ymddwyn yn unol â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr am y polisi a gweithdrefnau a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Gymryd rhan ym mhob rhan o'r rhaglen Diwtorial.
- Monitro eu targedau a chynnydd.
- Darparu adborth ar y rhaglen drwy arolygon dysgwyr, a gweithgareddau llai y dysgwyr eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Canllawiau sy'n gysylltiedig â chynnwys y Tiwtorial.

Rhaglenni Maes Dysgu

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg h.y. ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Nid oes unrhyw rai yn gysylltiedig â'r polisi hwn.

Polisiau Cysylltiedig

- Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
- Bwlio ac Aflonyddu

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

- Addasrwydd i Astudio
- Diogelu
- Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Addysgu a Dysgu
- Sgiliau
- Diogelu Data
- Datgelu

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Fel yr uchod ar gyfer polisiâu
- Gweithdrefn Diwtorial
- Gweithdrefn Bresenoldeb

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Lleoliad a Chael Gafael ar y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan, ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 6 Rhagfyr 2013

Cymeradwywyd gan: CQSA/Y Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu: 30 Medi 2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu

Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr

Ar gael i Ddysgwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu:	09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	09/24